**Diogelu Plant a effeithiwyd gan Gamdriniaeth yn y Cartref, Venue Cymru, 28 Mawrth 2014**

**Adroddiad i CYSAG Ynys Môn**

Yn y bore cawsom anerchiadau gan nifer o siaradwyr.

- Rhoddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cynulliad dros Lywodraeth Leol, ddiweddariad am y ddeddfwriaeth arfaethedig ym meysydd Diogelu Plant rhag Camdriniaeth yn y Cartref, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, ac atal-caethwasiaeth.
- Cawsom gyflwyniad pwerus a hynod deimladwy gan un oedd wedi dod drwy Gam-driniaeth yn y Cartref, wedi i 20 mlynedd o ddioddef ymddygiad rheoli caeth a thrais. Dywedodd sut yr oedd ei gŵr wedi ei chaethiwo drwy symud lleoliad yn gyson fel nad oedd yn cael cyfle i ffurfio perthnasau, nid oedd ganddi unrhyw gysylltiad gyda'i theulu, nid oedd yn caniatáu iddi gael ffôn symudol na dysgu i yrru car ac roedd yn teimlo ymrwymiad i'w phlant. Yn y diwedd fe sylweddolodd na fyddai byth yn newid, gysylltodd hefo'i theulu unwaith yn rhagor a chyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oedd unrhyw bryderon wedi codi cyn hynny am ei phlant, ond fe gawsant eu rhoddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn y diwedd, fe garcharwyd ei gŵr am 9 mlynedd. Roedd yn canmol cefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu, a dywedodd sut yr oedd yn awr wedi llwyddo yn ei phrawf gyrru, roedd ganddi fywyd cymdeithasol, ac roedd pob un o'i phlant gartref gyda hi, ac roedd hi'n hapus.
- Siaradodd Paula Hardy, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru, am yr effaith y gall Camdriniaeth yn y Cartref ei gael ar blant, am arwyddion posibl o Gamdriniaeth Cartref, pam bod dioddefwyr weithiau'n methu â datgelu eu bod yn cael eu cam-drin, sut y gellir helpu dioddefwyr i ddatgelu, ac am gyfrifoldebau'r rhai y datgelir unrhyw gamdriniaeth iddynt.
- Siaradodd yr Athro Lorraine Radford, o Brifysgol Canol Sir Gaerhirfryn, am sut i 'adeiladu dycnwch' yn y sawl sy'n dioddef Camdriniaeth yn y Cartref, sut i helpu dioddefwyr i allu byw heb unrhyw effeithiau negyddol parhaol. Un elfen allweddol yw sicrhau perthynas barhaol gyda'r rhiant nad oedd yn cam-drin.
- Gan Gerallt Evans, Cyfreithiwr gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gweithio ar erlyn achosion o Gamdriniaeth yn y Cartref sy'n ymwneud â phlant, cafwyd gwybod am y gweithdrefnau a'r materion oedd ynglŷn â hyn, a sut y gellir cefnogi plant os oes angen iddynt roi tystiolaeth.

Yn y prynhawn cawsom ddewis o weithdai. Fe es i yn gyntaf i sgwrs gan ddau gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf a fu'n siarad am sut y byddant yn ceisio monitro a chefnogi'r rhai y'u cafwyd yn euog o Gamdriniaeth yn y Cartref yn ystod eu dedfryd ac yn dilyn eu rhyddhau o garchar os mai dedfryd o garchar a gafwyd. Yn ail, fe es i weithdy lle cyflwynwyd i ni nifer o astudiaethau achos a chawsom ein gwahodd i adlewyrchu ar sut y byddem ni yn ymateb pe baem yn gorfod wynebu sefyllfa debyg.

Drwyddi draw roedd yn ddiwrnod oedd yn cynnig llawer o wybodaeth, ac yn ddiwrnod defnyddiol iawn i mi yn fy rôl fel un o Swyddogion Diogelu'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Y Diacon Stephen Roe